**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Medi 5ed 2022**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Elin Hywel, Louise Hughes, Gareth T Jones Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Anne Lloyd Jones, Edgar Owen, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Huw Rowlands a Gruffydd Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio), Idwal Williams (Swyddog Rheolaeth Datblygu), Arwel Thomas (Swyddog Rheolaeth Datblygu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Aelodau Lleol: Cynghorwyr Gareth Williams a Gwilym Jones

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elwyn Jones a Gareth Coj Parry;
Kim Jones (Aelod Lleol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

---

**PWNC: Eitem 5.1 CAIS RHIF C21/1111/14/LL**
**Canolfan Arddio Fron Goch, Ffordd Pant, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5RL**

**Cais i godi adeilad i storio dodrefn ardd ynghyd â chodi adeilad cyfagos i arddangos a gwerthu dodrefn, ardal storio agored ac estyniad i'r maes parcio cwsmeriaid presennol**

---

**PENDERFYNIAD: Caniatáu gydag amodau**

1. **5 mlynedd.**
2. **Unol â chynlluniau a gyflwynwyd.**
3. **Defnydd atodol i'r prif ganolfan garddio.**
4. **Cwblhau'r parcio ychwanegol cyn defnyddio'r adeilad.**
5. **Yr holl arwyddion mewnol ac allanol i fod yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r iaith Gymraeg.**
6. **Amodau bioamrywiaeth (golau, gwelliannau bioamrywiaeth.**
7. **Tirweddu.**
8. **Cytuno cynllun draenio tir.**
9. **Cyfyngu i werthiant o nwyddau cymharol yn unig, dim gwerthiant o nwyddau cyfleus (bwyd)**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 10 |
| Yn erbyn | 2 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

Aelod Lleol Y Cynghorydd Cai Larsen

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

---

**PWNC: Eitem 5.2 CAIS RHIF C22/0242/34/LL**
**Tir ger Penlon, Clynnog Fawr, LL54 5PE**

**Adeiladu tŷ newydd a llecynnau parcio**

---

**PENDERFYNIAD: Gwrthod**

**Rhesymau**

1. **Mae'r bwriad, oherwydd ei faint a gosodiad yn groes i ofynion Polisïau PCYFF3, TAI 4, o'r CDLL. Ystyrir byddai'r bwriad yn groes i'r patrwm datblygu oherwydd diffyg cwrtil / man agored o gwmpas y tŷ. Ni ystyrir byddai'r bwriad yn ychwanegu at nac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle a byddai colled o wagle agored rhwng anheddau presennol yn niweidio edrychiad a chymeriad y strydlun a'r ardal cadwraeth.**

2. **Ystyrir bod y bwriad yn groes i ofynion polisïau PS19, PS20, AT 1 a AMG 1 o'r CDLL gan na fyddai'r bwriad, oherwydd y golled o lecyn agored ynghyd a maint ac edrychiad y tŷ, yn diogelu nac yn gwella'r gosodiad ac edrychiad yr ardal cadwraeth a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r ardal.**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 8 |
| Yn erbyn | 4 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Y Cynghorydd Elin Hywel gyda chysylltiad gyda'r Aelod Lleol

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

---

**PWNC: Eitem 5.3 CAIS RHIF C22/0182/30/DT**
**Pelydryn, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BE**

**Estyniad un llawr**

---

**PENDERFYNIAD: Caniatáu gydag amodau:**

1. **Cychwyn o fewn 5 mlynedd.**
2. **Unol a'r cynlluniau**
3. **To llechi**
4. **Deunyddiau i weddu**
5. **Amod Dŵr Cymru**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 8 |
| Yn erbyn | 5 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

---

**PWNC: Eitem 5.4 CAIS RHIF C22/0525/11/LL**
**Cyn Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor, LL57 4TW**

**Codi 10 tŷ fforddiadwy canolradd a gwaith cysylltiedig.**

---

**PENDERFYNIAD:**

**Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau isod:**

1. **5 mlynedd.**
2. **Yn unol â'r cynlluniau/manylion a gyflwynwyd gyda'r cais.**
3. **Cydymffurfio a'r cynllun tirweddu ynghyd a gwaith cynnal a chadw i'r dyfodol.**
4. **Sicrhau cynllun/trefniadau ar gyfer darparu'r anheddau fforddiadwy e.e. meini prawf meddiannaeth, amserlen a threfniadau i sicrhau bydd yr unedau yn fforddiadwy yn bresennol ac am byth.**
5. **Cydymffurfiaeth gydag argymhellion y dogfennau Arolwg Ecolegol ac Asesiad Effaith Coedyddiaeth.**
6. **Cytuno manylion enw Cymraeg ar gyfer y datblygiad ac ar gyfer yr anheddau oddi fewn y datblygiad cyn i'r anheddau preswyl cael eu meddiannu at unrhyw ddiben ynghyd ac arwyddion sy'n hysbysu ac yn hyrwyddo'r datblygiad.**
7. **Cyfyngu ar oriau gweithio i 08:00-18:00 Llun i Wener; 08:00-13:00 Sadwrn a dim o gwbl ar y Sul a Gŵyl y Banc.**
8. **Cyflwyno Datganiad Dull Adeiladu i'r ACLL i gynnwys mesurau lleihau sŵn, llwch a dirgryniad, parcio cerbydau gweithredwyr y datblygiad, llwytho/dadlwytho nwyddau, storio cyfarpar offer ar y safle, ffensys diogelwch, cyfleusterau golchi olwynion a chynllun ail-gylchu/gwaredu sbwriel.**
9. **Amodau perthnasol gan yr Uned Drafnidiaeth gan gynnwys sicrhau gwelededd o 33m i'r de-orllewin o'r brif fynedfa.**
10. **Cytuno gyda gorffeniadau allanol yr anheddau.**
11. **Llechi naturiol i'r toeau.**
12. **Cytuno ar ffens acwstig**
13. **Cytuno ar gyfarpar chwarae i plant.**

**Nodyn: Angen cyflwyno cais system ddraenio cynaliadwy i'w gytuno gyda'r Cyngor.**

---

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 11 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 1 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

Aelod Lleol: Cynghorydd Gareth A Roberts

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y’i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

**PWNC: Eitem 5.5 CAIS RHIF C22/0529/15/DT**
**Cil Melyn, 8, Stryd Warden, Llanberis LL55 4HP**

**Trosi to fflat yn deras to. Ffenestr gefn llawr cyntaf i'w thrawsnewid yn ddrws i ganiatáu mynediad a rhwystr o amgylch perimedr y to fflat a decin ar y llawr.**

**PENDERFYNIAD: Gwrthod**

**Rheswm**

1. **Byddai’r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau gor-edrych sylweddol a fyddai’n niweidiol i fwynderau trigolion eiddo preifat cyfagos yn ogystal â chreu elfen ddominyddol a fyddai'n ffynhonnell posib sŵn ac aflonyddwch. Mae'r cais felly'n groes i bolisi PCYFF 2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn fel y mae’n ymwneud ag amddiffyn mwynderau trigolion lleol.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 5 Medi 2022 |

---

**PWNC: Eitem 5.6 CAIS RHIF C21/1151/44/LL**
**Tyddyn Adi Camping Site, Morfa Bychan,Porthmadog, LL49 9YW**

**Uwchraddio cyfleusterau yn cynnwys gosod 10 uned deithiol a 6 pod glampio yn lle 25 pabell a awdurdodwyd gan Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon C12/1554/44/TC**

---

**PENDERFYNIAD:**

**Dirprwyo'r hawl i'r Rheolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:**

1. **Amser**
2. **Yn unol â'r cynlluniau.**
3. **Cyfyngu nifer o unedau teithiol i 10 uned deithiol, 6 pod a 50 pabell.**
4. **Defnydd gwyliau yn unig a chadw cofrestr.**
5. **Tymor gwyliau - 1af Mawrth i 31 Hydref**
6. **Symud y podiau i safle storio a ddangosir yn y cynllun rhwng 1 Tachwedd a 29 Chwefror.**
7. **Cwblhau'r gwaith tirweddu yn y tymor plannu cyntaf.**
8. **Unol ac argymhellion Adroddiad Ecolegol**

- **Nodiadau: Tynnu sylw at sylwadau Swyddog Trwyddedu Carafanau**
- **Nodiadau: Tynnu sylw at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chael cynllun llifogydd mewn lle.**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---